



UMPA
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
23ain Ebrill 2021
Yn rhithiol dros Zoom

Yn bresennol

Nate Pidcock (NP)	- Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Moc Lewis (ML)	- Swyddog Materion Cymreig UMPA a Llywydd UMCA
Wojtek Salski (WS)	- Swyddog Cyfleoedd i Fyfirwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Connor Hunter-Wem (CHW)	- Swyddog Llesiant UMPA ac Ymddiriedolwr
Chloe Wilkinson-Silk (CWS)	- Swyddog Materion Academaidd UMPA ac Ymddiriedolwr
Ryan Beasley (RB)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA a Dirprwy-Gadeirydd
Olympia Petrou (OP)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Debra Croft (DC)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Alan Roberts (AR)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Mark Marshall (MM)	- Ymddiriedolwr Ia-raddedigion UMPA

Hefyd Bresennol

Trish McGrath (TM)	- Prif Weithredwr UMPA
Annmarie Evans (AE)	- Rheolwr Pobl a Llesiant UMPA (yn cymryd nodiadau)

GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Yr unig ymddiheuriadau a dderbyniwyd oedd bod CWS yn cyrraedd y cyfarfod yn ychydig yn hwyr.

2. Datganiadau o Fuddiannau

TM/AE – trafodaeth ynghylch cyflogau a fydd yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Mae DC yn gwneud ychydig o waith i HEFCW.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 5ed Chwefror 2020.

4. Materion sy'n Codi / Taflen Weithredu

Ni chodwyd unrhyw faterion, triniwyd popeth yn eitemau'r agenda.

STRATEGAETH

5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth

Rhoddodd TM drosolwg o'r cyfrifon Rheolaeth hyd at Chwefror 2021. Esboniodd TM y rhagwelwyd y bydd tua 32k dros ben. Bu trafodaeth ynghylch Pensiynau Swyddogion ac a ddylai hyn gael ei gynnwys yn y cyllid. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r arian HEFCW a roddwyd i Undeb y Myfyrwyr i gefnogi Llesiant a sut cafodd y arian hwn ei ddsbarthu.

Nodwyd

6. Adroddiad y Prif Weithredwr / Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rhoddodd TM drosolwg o'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Trafododd yr adroddiad Cyllid ac Arian, Staffio a Llesiant, Gofodau Undeb y Myfyrwyr, Gŵyl y Cymdeithasau Varsity ac Aber yn Dathlu.

Diweddariad KPI – Adroddwyd gan TM na fu newidiadau mawr i'r meincnodau yn gyffredinol. Gwelwyd cynnydd yn nifer y myfyrwyr yn cysylltu â'n Gwasanaeth Ymgynghori ac mae'r aelodau staff ychwanegol i'n Adran Gyfathrebu wedi bod o fudd mawr.

Nodwyd

7. Adroddiad y Swyddogion

Rhoddodd y Swyddogion grynodedeb o'u gweithredoedd ers y cyfarfod diwethaf.

Nodwyd

8. Cyllideb 2021/22

Rhoddodd TM resymeg i'r Bwrdd dros beidio â chynyddu graddfeydd cyflog i staff. Gofynnodd TM i'r Bwrdd gymeradwyo y newid i Gyflogau Swyddogion Llawn Amser gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'n cynnydd Cyflog Byw Teg.

Cymeradwywyd

Gofynnodd JA i TM wneud yn siŵr fod y penderfyniad i beidio â newid strwythur cyflogau staff yn cael ei gyfleu'n glir i'r tîm staff, yn esbonio yn y rhesymeg dros y penderfyniad.

Gweithredu – TM

BUCS

Cafwyd trafodaeth ynghylch y cyllid BUCS a'r angen i leihau nifer y timau sy'n cystadlu. Awgrymodd JA i gynnal cyfarfodydd gyda'r timau a fydd yn gweld toriadau i roi'r cyfrifoldeb o wneud y penderfyniadau ar y ffordd orau o dorri a datblygu iddynt.

Gweithredu – TM i drafod gyda'r Pennaeth Cyfleoedd

9. Cyfrifon Blynyddol

Rhoddwyd y Cyfrifon Blynyddol i'r Bwrdd a gofynnwyd iddynt ymateb drwy e-bost i TM o fewn wythnos.

Nodwyd

10. Cofnod Risgiau

Bydd TM a JA yn cynnal cyfarfod i drafod y Cofnod Risgiau a rhoddir adborth i'r Bwrdd wedyn.

Gweithredu – TM/JA

11. Unrhyw fusnes arall

Rhoddodd TM wybod i'r Bwrdd am bolisi a aeth drwy'r Senedd a all beri pryderon

ynghylch Rhyddid Barn. Cynhaliwyd trafodaeth gan y Bwrdd ac fe'i gytunwyd y bydd TM, AR, NP a Martin dod yn dod at ei gilydd ar wahân.

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

18fed Mehefin 2021 am 10yb.

Nodwyd

Diwedd y Cyfarfod